

Tud 1.

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanbedr 5.1.23

Cyfarfod cyntaf y flwyddyn I bennu precept ar gyfer 2023 – 24

Cyfarfod dros zoom a hefyd presenoldeb yn y Neuadd Bentref – am 7 yr hwyr.

Ymddiheuriadau gan Gwynfor Owen a hefyd Catrin S Williams Oherwydd amgylchiadau personol.

Cynghorydd Nia Jones yn bresennol dros zoom.

Croeso – croesawyd pawb I'r cyfarfod . A dymuno blwyddyn Newydd dda I bawb gan y Cadeirydd.

Datgan Buddiant – wrth son am Tanws Werngron (AH, HJ, JE)

Derbyn Cofnodion cyfarfod diwethaf fel rhai cywir ond bod RW yn dymuno ychwanegu cymal at adroddiad HAL. Angen gweld cyfrifon llawn, a hefyd plan am 5 mlynedd. Hefyd ansicrwydd a yw y ffigwr £1.10 yr annedd yn gywir.

Hefyd KT yn gwneud sylw bod y ffordd mae nhw yn codi ar henoed yn wahanol I'r hyn yr oedd yn y gorffennol.

Y cymalau yma I'w newid yn y cofnodion llawn Rhagfyr cyn rhoi ar y wefan.

Materion eraill yn codi cyn mynd at y gyllideb:-

1. Ffordd Newydd – bydd penderfyniad y lefelling up yn digwydd cyn diwedd Ionawr.
2. Llwybrau – Cafwyd adroddiad gan Iolyn Jones parthed llwybrau. Gwirfoddolwr bellach.
Llwybr 70 – Cae'r Meddyg I Gellilas – pyst a saethau wedi eu gosod yma.
Llwybr 24 – capel Salem I Fron a Llwybr Gwydda (Pyst wedi eu gosod gan y tîrfeddiannwr a saethau gan Eth a IJ) . Angen 2 byst arall ar y Llwybr yma. Bydd IJ yn gofyn I'r tîrfeddiannwr eu gosod.
Llwybr 62 – Rhan o lwybr Tyddyn Bach I derfyn y tir. Pyst a saethau wedi eu gosod yma gan Eth a IJ. Rhan ucha'r ar dir Penisar Cwm . Angen tua 8 polyn a saethau yma. Nododd bod y llwybr yma yn bwysig. Llawn rhedyn a gwaith angen ei wneud arno.
Eth wedi cael pris am dorri'r llwybr yma o £450 + Taw. Pasiwyd I dderbyn hwn er mwyn cael clirio llwybr erbyn y gwanwyn.
3. Biniau Halen – ateb a gafodd Annwen Hughes – gan Gyngor Gwynedd – yn hir yn llenwi'r biniau, llawer o waith drwy'r Sir, ond wedi eu llenwi bellach.
4. Toiledau Cyhoeddus – rhain wedi bod ar gau oherwydd rhewi, ac wedyn burst yn y pibellau dwr.
5. Rhif etholwyr Llanbedr yn 429 1.12.22
6. Y Fynwent – Aelodau yr eglwys yn awyddus I gyfarfod:-I drafod

Llwybr o'r Vic

Drain ym mhob man

Bin brown - cost o £37 y flwyddyn. Gwagio bob 2 wythnos.

Pasiwyd I ddweud bod lle addas ar gyfer ail gylchu yma yn barod. Dim angen bin brown. Ond angen arwyddion plaen i ddangos safle ail gylchu – safle gwastraff gardd yn unig. A oes posib chwistrellu y chwyn heb iddynt ymddangos yn hyll I'r amgylchedd.?Trefnu bod y Clerc a'r Cadeirydd yn cyfarfod a hwy bore Sul .

Tud 2.

Adroddiad gan AH – materion Gwynedd

Diolchodd am y golau ysblennydd ar gyfer y Nadolig gan yr Wyl Gwrw. Gwerth eu gweld eto eleni.

Llinellau melyn wedi eu gosod ger Llys Brithyll.

Parseli yn mynd ar goll . Nododd Nia Jones bod angen cysylltu gyda'r depot yng Nghaernarfon.

Ceir yn parcio yn broblem ger Llenyrch , a hefyd anhawster I geir fynychu'r ffordd o fynediad yr Eglwys ger Ty'n Llan. Sut I wella petha yma?

Toiledau – wedi son am rhain eisioes – ond bod Llanbedr ar raglan gwella . Bod twll wedi ymddangos yn y ffordd ger y toiledau.

Tyllau ar ffordd Bryn Hyfryd wedi eu trwshio.

7. Y Wefan Newydd – Bron iawn yn barod. Bydd yn fyw erbyn wythnos nesaf. Problemau wedi bod parthed y ddogfen preifatrwydd a oedd yn ddogfen 6 tudalen.

Materion Eraill

1. Llwybr ger Gilfach Goch – y cerrig camu yma yn suddo – mewn tir mawnog. Cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

2. Gwirfoddoli gyda Gorsaf Talwrn Bach – fawr o ddim yn cael ei wneud parthed hyn.

Mis Hydref a Tachwedd – gwirfoddolwyr yn nodi bod y gysgodfan yn gollwng dwr.

Mis Rhagfyr – a dechrau Ionawr – bod lot fawr o sbwriel o gwmpas, caniau a poteli diod.

Gan nad oes bin yma , mae hyn yn broblem. Codi y mater gyda Cyngorydd Gwynfor Owen gan ei fod yn rhan o bwyllgor liaison Arfordir y Cambrian.. Problem baw cwn – oedd y rheswm I'r bin sbwriel gael ei dynnu o'r safle.